**Cyngor Cymuned Glantwymyn**

**Nos Iau, yr 2il o Fai 2019**

**19:34: Presennol:** Cynghorwyr: Dafydd E Evans (Cadeirydd), Deryck Lewis, William N Owen, Paul Hughes, Gwenfair Davies, Gwyn Jones, Gareth Owen, Geraint Wigley, Siôn Evans

**19:35: Ymddiheuriadau: Gwen Lloyd**, Aeron Pughe, Huw Williams, Aled Griffiths, Iwan Jones Gareth Jones

**19:36: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Cyfarfod yr 28ain o Fawrth 2019**

Cynigiwyd Paul Hughes fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan bawb.

**19:37: Materion yn codi o'r cofnodion - Dim**

**19:38 Cynllunio** – 19_0586_FUL Capel Nebo, Glantwymyn

**19:39: Datganiadau o ddiddordeb:** Paul Hughes

Cynigiodd Gwyn Jones y dylid cymeradwyo'r cynlluniau. Fe'i heiliwyd gan Geraint Wigley.

**19:40 Eitemau i'w Talu a Materion Ariannol**

**19:40:1**: Taliadau

Talwyd £472.00 i'r clerc ar gyfer cyflog Ionawr - Ebrill,

£118.00 i CThEM, a £35.23 i Gloversure ar gyfer ffi dwy flynedd a hyfforddiant i'r clerc.

**19:41: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:41:1**: Iechyd - Nododd Gwenfair Davies y cynhelir cyfarfod 8/5/19 ym Machynlleth a bod angen rhoi cwestiynau i mewn tridiau ymlaen llaw.

**19:42 Gohebiaeth**

**19:42:1:** Mewn perthynas â **19.22.5** cafwyd ymateb gan Dr. Louise Hyde am bryderon ynglŷn â chyfrinachedd i ddweud bod gan y feddygfa ganiatâd y doctoriaid i ddatgelu manylion am eu hiechyd personol pan gaewyd meddygfa Glantwymyn.

**19:42:2:** Derbyniwyd llythyr gan Gofebion Rhyfel Powys yn cynnig arian i adfer cofebion Rhyfel Byd Cyntaf. Byddai modd adfer cofeb yng Nghemaes, a phlac yng Nghwmlline yn ogystal ag ychwanegu enw a anrhydeddir yn eglwys Darowen at gofeb Cemaes. Cynigiwyd rhoi cais i mewn gan Deryck Lewis. Fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:42:3:** Cronfa Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer arian i wneud cymunedau'n ddiogelach.

Penderfynwyd anfon yr ohebiaeth at y Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan a Gareth Jones

**19:43: Unrhyw fater arall**

**19:43:1: Problemau'n ymwneud â phriffyrdd yn cynnwys;**

**19:43:2:** Problemau blaenorol **19:23:3** sydd heb gael sylw gan Gyngor sir Powys hyd yn hyn -

- gratin a thwll archwilio tu allan i Frynhyfryd, 4 Rhos Awel, Cwmlline.
- tyllau archwilio ar y ffordd gefn o Fachynlleth i Bantperthog sydd eto mewn cyflwr gwael.
- twll archwilio ar y ffordd fawr, A489 uwchben Poisnant.
- mynediad i gae ger Aberffrydlan, Llanwrin a'r sietyn ochr arall i'r ffordd.

Penderfynwyd ail-gyflwyno'r isod i Adran y Priffyrdd a gofyn am gyfeirnod achos, gan nad oedd dim o'r gwaith uchod wedi cael ei wneud.

**19:43:3:** Problemau newydd a godwyd yw:

**19:43:4:** Arwyddion ffyrdd:

Arwydd cyfyngder cyflymdra Cemaes - cynigiwyd gan Siôn Ifans y dylid gofyn am gael 30mya yn lle 40mya o ran cyfyngder cyflymdra.

Arwydd cyfyngder cyflymdra rhwng Comins a Glantwymyn – cynigiwyd y dylid ei symud yn nes at Glantwymyn. Penderfynwyd cysylltu â'r Adran Drafnidiaeth, Adrian Jarvis gan anfon copi i'r Cynghorwr. Elwyn Vaughan.

Cynigiwyd derbyn y cynnig gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:43:5:** Pump Station Cwmllinau: Tynnodd Deryck Williams sylw at broblem gyda charthffosiaeth gan fod dŵr drewllyd a budr yn gollwng o'r Pump house, Cwmlline, i'r afon. Mae'r beipen yn rhy gyfyng at y gwaith. Mae'r broblem wedi bodoli ers 20 mlynedd, ac er cael ymweliad gan gynrychiolydd Dŵr Cymru ddwy flynedd yn ôl, nid yw'r broblem wedi ei datrys.

Penderfynwyd cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, Pysgodfeydd Dyfi a Dŵr Cymru unwaith eto.

**19:43:6:** Lampau Stryd: Nodwyd nad yw'r lampau stryd canlynol yn gweithio:

Lamp ganol pentref, Llanwrin R03 -10

2 lamp ym mhen pentref Glantwymyn CR72, CR73

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Sir Powys

**19:43:7**: Arhosfeydd bysiau: Nodwyd bod coed yn tyfu dros arhosfa bysys Glantwymyn a phenderfynwyd cysylltu â Rhwydwaith Trenau Cymru.

Cyfrifoldeb glanhau: Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Powys ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am lanhau arhosfa bysiau.

Caewyd y cyfarfod am 9.20yh

**Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nos Iau, y 30ain o Fai am 7.30yh.**